Tai Teg

1. Mae Tai Teg yn cynnal prawf fforddiadwyedd wrth asesu ymgeiswyr ar gyfer Rhent Canolradd, i sicrhau bod y rhent gyfwerth ag uchafswm o 30% o alldaliadau'r ymgeisydd, yn unol â chanllawiau LlC. Caiff budd-daliadau ac incwm o gyflogau eu hystyried fel incwm (mae hyn yn cynnwys Credyd Cynhwysol). Mae rhywfaint o incwm wedi'i eithrio rhag asesiad, fel lwfans maethu, pensiynau rhyfel ac ati.
2. Ar hyn o bryd, ar Gofrestr Tai, mae 960[1] o ymgeiswyr unigryw yn gofyn am lety Rhent Canolradd a 484[2] o ymgeiswyr yn gofyn am gymorth i brynu. Yn 2017, 119 a 244 oedd y ffigurau hyn. Mae Rhent Canolradd wedi bod yn cynyddu o ran poblogrwydd o'r naill flwyddyn i'r llall oherwydd ansicrwydd yn y farchnad swyddi trwy bwysau fel Brexit a Covid-19 a'r farchnad dai fywiog sydd wedi gweld prisiau eiddo'n cynyddu'n ddramatig yn Sir Ddinbych. Mae'r farchnad dai fywiog a newidiadau o ran deddfwriaeth i landlordiaid wedi annog llawer o landlordiaid preifat i werthu eu heiddo, sydd wedi golygu cynnydd o ran nifer y bobl sy'n gwneud cais am lety trwy Un Llwybr Mynediad at Dai a Thai Teg.

Gosodiadau Tai Teg 2022-2023

3. Cafodd 56 o eiddo eu marchnata trwy Tai Teg. Cafodd 672 cais am yr eiddo hyn eu hasesu a gwelwyd nad oedd 307 ohonynt yn gymwys[3].
4. Mae'r siart isod yn dangos y rhesymau dros beidio â bod yn gymwys am eiddo y gwnaed cais amdano ac a hysbysebwyd ar wefan Tai Teg.
5. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd dim cysylltiad lleol â Sir Ddinbych, neu bod y cysylltiad â Sir Ddinbych ond nid yr ardal benodol y mae'r eiddo ynddi yn unol â'r Polisi Cysylltiad Lleol, h.y. mae'r ymgeisydd wedi byw a gweithio yn Ninbych ers 10 mlynedd ond yn gwneud cais am eiddo ym Mhrestatyn heb angen o ran tai dros wneud hynny, er enghraifft, mae'r cyswllt teulu a gwaith yn dal i fod yn Ninbych.
6. Mae'r isafswm incwm gofynnol ar gyfer pob eiddo wedi'i nodi ar yr hysbyseb, fodd bynnag, mae rhai ymgeiswyr yn dal i wneud cais am annedd, er nad ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol.
7. Mae'r isafswm incwm yn cael ei benderfynu trwy gyfrifo na fyddai mwy na 30% o incwm yr ymgeisydd yn cael ei wario ar gostau tai.

[1] Tachwedd 2023
[2] Mae'n bosibl bod rhai ymgeiswyr wedi cofrestru ar gyfer y ddau fath o lety.
[3] Gwrthodwyd 20 oherwydd bod eu hincwm yn rhy uchel i fod yn gymwys ar gyfer Cofrestr Tai Teg, y band incwm yw £16,000 i £45,000.



Text for table above

Maint eiddo ddim yn briodol
Tynnu'n ôl
Dim dogfennau
Incwm rhy uchel
Incwm rhy isel
Cysylltiad â Sir Ddinbych yn unig
Dim cysylltiad â Sir Ddinbych